# Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU

Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, Ofcom

Cyhoeddwyd: 27 Tachwedd 2024



# Cynnwys


| Adran | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Prif ganfyddiadau | 4 |
| 1: Agweddau at wybodaeth a newyddion | 5 |
| 2: Dod ar draws camwybodaeth a thwyllwybodaeth | 8 |
| 3: Sut mae pobl yn priodweddu ac yn delio â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth | 12 |

# Cyflwyniad

## Cefndir

Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi cael ei gyflawni i helpu i lywio dyletswydd Ofcom o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o natur ac effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein. Mae hefyd yn cynnig ffyrdd o liniaru'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â gwybodaeth o'r fath.

Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth o sut mae oedolion yn y DU yn teimlo am wybodaeth "ffug neu gamarweiniol": ble maen nhw'n ei gweld, pam maen nhw'n meddwl ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol, a beth maen nhw'n ei wneud ac yn ei deimlo o ganlyniad. Rydym yn gofyn cwestiynau am rai agweddau craidd cyfredol ar yr amgylchedd newyddion i weld pa ddatganiadau y mae pobl yn meddwl sy'n gywir neu'n anghywir. Yn fras, mae'r rhain yn dilyn ein meysydd ffocws ar wleidyddiaeth y DU, gwleidyddiaeth ryngwladol a materion cyfoes, a gwybodaeth feddygol/gwybodaeth am iechyd. Rydym hefyd yn edrych ar farn oedolion yn y DU am rai arferion cynhyrchu newyddion, ac a ydynt yn ymwybodol o rai o'r ffyrdd y mae newyddion yn cael ei gynhyrchu.

Mae'n bwysig bod yn glir o'r dechrau bod camwybodaeth yn derm goddrychol. Dim ond rhan o'r stori yw'r achosion a adroddwyd o ddod ar draws camwybodaeth, ac rydym yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau eraill i ddeall natur credoau ac agweddau pobl tuag at y newyddion maen nhw'n cael gafael arno. Mae amrywiaeth o ffyrdd y gellir priodweddu camwybodaeth, ac felly mae'n bwysig deall cyd-destun ehangach agweddau a gwybodaeth pobl.

Mae canfyddiadau o gamwybodaeth yn cynnwys y canlynol ac nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt: darparu gwybodaeth empirig ffug; darparu gwybodaeth nad yw rhywun yn cytuno â hi; darparu gwybodaeth nad yw'n cyd-fynd â gwybodaeth flaenorol rhywun am bwnc, neu gredoau presennol am bwnc – sy'n gallu arwain at wybodaeth wir yn cael ei hadrodd fel gwybodaeth ffug, ac i'r gwrthwyneb; a rhywbeth y mae ffigwr cyhoeddus wedi'i ddweud y mae gwasanaeth neu lwyfan newyddion yn adrodd arno – gydag adroddiadau o'r fath naill ai'n nodi bod y datganiad yn gamarweiniol, neu'n ei ddarparu fel datganiad cywir.

Mae'r amrywiaeth o ffyrdd y gellir dehongli camwybodaeth yn ddefnyddiol i'w cofio yn y canfyddiadau canlynol, wrth i ni edrych ar rai o'r ffyrdd y mae oedolion yn y DU yn llywio eu hamgylcheddau newyddion, ac wrth i ni nodi'r grwpiau hynny a allai fod yn fwy agored i wybodaeth ffug neu gamarweiniol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

## Methodoleg

- Mae'r sampl yn cynnwys 4,269 o oedolion 16 oed a hŷn yn y DU sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau gwleidyddol. Roedd hyn yn cynnwys cwotâu ar gyfer oedran/rhywedd/lefel addysg, gradd gymdeithasol, pleidlais ranbarthol/Etholiad Cyffredinol 2019, a phleidlais yn refferendwm yr UE.
- Cyflawnwyd yr holl waith maes ar-lein rhwng 27 Mehefin a 2 Gorffennaf 2024 gan YouGov, gan ddefnyddio ymatebwyr o banel ar-lein YouGov.
- Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli'n wleidyddol boblogaeth y DU sy'n 16 oed a hŷn, gan ystyried pleidlais adalw a mesur o sylw gwleidyddol i gynnwys amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys y rheini nad oeddent wedi pleidleisio neu a oedd yn rhy ifanc.
- Mae tablau data a'r holiadur ar gael yma.

# Prif ganfyddiadau

- **Mae dros dri chwarter oedolion y DU yn cytuno ei bod yn bwysig bwrw golwg ar wahanol ffynonellau newyddion**, ac mae saith o bob deg yn cydnabod y bydd gwybodaeth ar-lein bob amser yn gymysgedd o wybodaeth ddibynadwy ac annibynadwy. Dywed dros hanner fod ganddynt ddiddordeb mewn dysgu mwy am sut mae gwirio cywirdeb gwybodaeth o'r fath.

- Fodd bynnag, mae dros **bedwar o bob deg yn amheus o brosesau cynhyrchu newyddion confensiynol** a dim ond un rhan o dair sy'n cytuno bod newyddiadurwyr yn dilyn codau ymarfer.

- **Mae dros ddwy ran o bump (43%) o oedolion yn y DU yn dweud eu bod yn dod ar draws camwybodaeth neu ffugiadau dwfn**, ac roedd hyn yn fwy tebygol ymysg dynion, oedolion iau, pobl o gefndir ABC1, grwpiau ethnig lleiafrifol, grwpiau LHD+ a phobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl.

- Ymysg y rheini sy'n dweud eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn ystod y pedair wythnos diwethaf, mae **saith o bob deg yn dweud eu bod wedi'i gweld ar-lein. Mae pedwar o bob deg yn dweud eu bod wedi'i gweld ar y teledu, a dau o bob pump wedi'i gweld mewn print.**

- **Mae bron i hanner oedolion y DU (45%) yn teimlo'n hyderus eu bod yn gallu barnu a yw ffynonellau gwybodaeth yn wir**, ac mae ychydig o dan ddwy ran o bump (37%) yn hyderus eu bod yn gallu asesu a yw ystadegau i gefnogi honiadau yn cael eu defnyddio'n gywir.

- **Mae'r ymatebwyr yn llai hyderus yn eu gallu i farnu presenoldeb deunydd a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial.** Dywed traean (33%) o oedolion yn y DU nad ydynt yn hyderus yn barnu a yw delwedd, sain neu fideo wedi cael eu creu gan ddeallusrwydd artiffisial.

- **Mae bron i hanner oedolion y DU yn dweud eu bod yn anwybyddu cynnwys ar-lein a allai fod yn anwir.** Mae chwarter yn chwilio am ragor o wybodaeth i'w gwirio. Mae dros un o bob pump yn edrych ar sylwadau ar yr wybodaeth i weld beth mae pobl eraill yn ei ddweud amdani, ac mae 13% yn gofyn i ffrindiau a theulu.

- **Mae tua chwarter (26%) oedolion yn y DU yn dweud eu bod wedi defnyddio gwefan neu adnodd gwirio ffeithiau o leiaf unwaith**. BBC Verify yw'r adnodd sydd fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio neu y mae pobl fwyaf tebygol o fod wedi clywed amdano, ac mae un o bob pump yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio o leiaf unwaith, ac un o bob ugain yn dweud eu bod yn gwneud hynny'n rheolaidd.

- Mae **naw o bob deg o'r rheini sy'n dod ar draws camwybodaeth yn dweud eu bod yn poeni am ei heffaith ar gymdeithas**, ac mae bron i ddwy ran o dair yn dweud eu bod yn poeni am yr effaith arnyn nhw eu hunain.


- Pan ofynnwyd iddynt benderfynu pa ddatganiadau am faterion cyfoes oedd yn gywir neu'n anghywir, **mae tri o bob deg oedolyn yn y DU yn credu bod un grŵp o bobl sy'n rheoli'r byd gyda'i gilydd yn gyfrinachol, ac mae ffigur tebyg yn credu bod tystiolaeth sylweddol o dwyll etholiadol ar raddfa fawr.**

# Adran 1: Agweddau at wybodaeth a newyddion

# Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn y DU yn cytuno ei bod yn bwysig gwirio cywirdeb gwybodaeth newyddion drwy edrych ar wahanol ffynonellau, ac mae gan dros hanner ddiddordeb mewn dysgu sut mae gwirio a yw gwybodaeth yn gywir

Mae dros dri chwarter oedolion y DU yn cytuno ei bod yn bwysig gwirio gwahanol ffynonellau newyddion, ac mae saith o bob deg yn cydnabod y bydd gwybodaeth ar-lein bob amser yn gymysgedd o wybodaeth ddibynadwy ac annibynadwy. Dywed dros hanner fod ganddynt ddiddordeb mewn dysgu mwy am sut mae gwirio cywirdeb gwybodaeth o'r fath.

**Cytuno â datganiadau am wybodaeth a newyddion – holl oedolion y DU**




*Sylwer: Nid yw ymatebion "Ddim yn gwybod" yn cael eu cynnwys ac felly efallai na fydd rhesi'n cyfateb i 100%*

Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024


C20. Isod ceir amrywiaeth o ddatganiadau y mae pobl wedi'u dweud mewn perthynas â gwybodaeth a newyddion. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch gwybodaeth a newyddion? Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno isod, os yw'n berthnasol.

Sylfaen: Pob ymatebydd (n=4269)

# Fodd bynnag, mae dros bedwar o bob deg yn amheus o brosesau cynhyrchu newyddion confensiynol a dim ond un rhan o dair sy'n cytuno bod newyddiadurwyr yn dilyn codau ymarfer

Mae ychydig o dan hanner oedolion y DU yn cytuno â'r datganiad "po fwyaf y mae stori newyddion yn cael ei golygu, y lleiaf tebygol ydyw o fod yn wir". Mae dros ddwy ran o bump yn dweud eu bod yn ymddiried mewn fideos llygad-dystion yn fwy na lluniau neu erthyglau ysgrifenedig, ac mae tua thraean yn cytuno bod newyddiadurwyr fel arfer yn dilyn codau ymarfer i annog cynnwys cywir a moesegol. Mae pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiadau hyn.

**Cytuno â datganiadau am wybodaeth a newyddion – holl oedolion y DU**




*Sylwer: Nid yw ymatebion "Ddim yn gwybod" yn cael eu cynnwys ac felly efallai na fydd rhesi'n cyfateb i 100%*

Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C20. Isod ceir amrywiaeth o ddatganiadau y mae pobl wedi'u dweud mewn perthynas â gwybodaeth a newyddion. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch gwybodaeth a newyddion? Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno isod, os yw'n berthnasol.

Sylfaen: Pob ymatebydd (n=4269)

# Adran 2: Dod ar draws camwybodaeth a thwyllwybodaeth


# Mae dros ddwy ran o bump (43%) o oedolion yn y DU yn dweud eu bod yn dod ar draws camwybodaeth neu ffugiadau dwfn

Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr ddweud wrthym a oeddent wedi gweld unrhyw gamwybodaeth neu dwyllwybodaeth ysgrifenedig, neu fideos/delweddau ffug neu dwyllodrus, yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Fe wnaethom ddisgrifio hyn fel "straeon, honiadau neu haeriadau ffug neu gamarweiniol". Dywedodd pedwar o bob deg eu bod wedi gweld camwybodaeth neu dwyllwybodaeth ysgrifenedig, ac un o bob pump eu bod wedi gweld fideos/delweddau ffug neu dwyllodrus. Gyda'i gilydd, dywedodd 43% o bobl eu bod wedi gweld rhyw fath o gamwybodaeth, ac roedd hyn yn fwy tebygol ymysg dynion, oedolion iau, pobl o gefndir ABC1, grwpiau ethnig lleiafrifol, grwpiau LHD+ a phobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl.

**Camwybodaeth y daethpwyd ar ei thraws yn ystod y pedair wythnos diwethaf (unrhyw bwnc) – yn ôl grwpiau demograffig**

**41%** Camwybodaeth neu dwyllwybodaeth ysgrifenedig

**20%** Delweddau/ fideos ffug neu dwyllodrus





Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C5. Yn ystod y 4 wythnos diwethaf, ydych chi wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am y pynciau canlynol rydych chi'n eu hystyried yn…? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

Sylfaen: Pawb sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw newyddion neu wybodaeth yn ystod y 4 wythnos diwethaf (n=3667)

# Mae oedolion yn y DU sy'n dweud eu bod yn dod ar draws camwybodaeth gan amlaf yn dweud eu bod yn ei gweld ar-lein

Ymysg y rheini sy'n dweud eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn ystod y pedair wythnos diwethaf, mae saith o bob deg yn dweud eu bod wedi'i gweld ar-lein.  Mae pedwar o bob deg yn dweud eu bod wedi'i gweld ar y teledu, a dau o bob pump wedi'i gweld mewn print. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, nid yw canfyddiad person bod gwybodaeth yn ffug neu'n gamarweiniol yn golygu bod yr wybodaeth yn anghywir. Gallai honiadau neu adroddiadau am ffigyrau cyhoeddus, y mae eu geiriau'n gamarweiniol ym marn y rheini sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil, lywio canfyddiad y cyfranogwyr hyn hefyd.




Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C11. Nodwch ar ba sianel/sianeli teledu a/neu wefannau/apiau cysylltiedig y daethoch ar draws yr wybodaeth yr oeddech yn ei hystyried yn wybodaeth ffug neu gamarweiniol/C12. Nodwch y papur newydd neu'r papurau newydd a/neu'r gwefannau/apiau cysylltiedig lle daethoch ar draws yr wybodaeth yr oeddech yn ei hystyried yn ffug neu'n gamarweiniol/C14.

Sylfaen: Pawb sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn ystod y 4 wythnos diwethaf ar y cyfryngau cymdeithasol (n=1137); Dynion (n=634), LHD+ (n=177), 16-24 oed (n=172), 25-34 oed (n=267), 55+ oed (n=382), Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (n=152); Teledu (n=683), 25-34 oed (n=102), 55+oed (n=363), Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (n=72), C2DE (n=219)

# Roedd pobl yn fwy tebygol o ddod ar draws camwybodaeth am bynciau fel gwleidyddiaeth y DU, na phynciau fel gwleidyddiaeth ryngwladol neu wybodaeth am iechyd

Yn ein harolwg, fe wnaethom ofyn i bobl ddweud wrthym a oeddent wedi dod ar draws newyddion am dri phwnc gwleidyddiaeth y DU, gan gynnwys yr etholiad cyffredinol, gwleidyddiaeth ryngwladol a materion cyfoes, a gwybodaeth feddygol neu wybodaeth am iechyd, yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Yna gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi dod ar draws y pynciau hynny a oeddent wedi dod ar draws unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol amdanynt. O ystyried pa mor agos yw cyfnod y gwaith maes at yr etholiad cyffredinol, mae'n ddealladwy bod oedolion yn y DU wedi dweud eu bod wedi dod ar draws mwy o gamwybodaeth am y pwnc hwn na'r ddau faes arall.

**Camwybodaeth neu ffugiadau dwfn y daethpwyd ar eu traws yn ystod y 4 wythnos diwethaf – yn ôl pwnc (ymysg y rhai a welodd newyddion am bob pwnc)**

### 39% Gwleidyddiaeth y DU gan gynnwys yr etholiad cyffredinol

- **14%** Camwybodaeth ac anwiredd sy'n gysylltiedig ag etholiadau
- **12%** Honiadau di-sail am bolisïau gwleidyddol a safbwyntiau pleidiau
- **11%** Honiadau o gamwybodaeth wedi'i lledaenu gan bleidiau gwleidyddol

Y **3 Phrif Fath** o Gamwybodaeth neu Ffugiadau Dwfn (Digymell) y daethpwyd ar eu traws yn ystod y 4 wythnos diwethaf – yn ôl Pwnc (Ymysg y Rhai a Welodd Newyddion am Bob Pwnc)

### 33% Gwleidyddiaeth ryngwladol a materion cyfoes

- **17%** Camwybodaeth a/neu ddelweddau camarweiniol am etholiadau ac ymgeiswyr arlywyddol yr Unol Daleithiau
- **15%** Camwybodaeth neu ddelweddau/ fideos ffug sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro rhwng Israel a Phalesteina
- **11%** Honiadau o sylwadau camarweiniol wedi'u gwneud gan wleidyddion UDA

Y **3 Phrif Fath** o Gamwybodaeth neu Ffugiadau Dwfn (Digymell) y daethpwyd ar eu traws yn ystod y 4 wythnos diwethaf – yn ôl Pwnc (Ymysg y Rhai a Welodd Newyddion am Bob Pwnc)

### 25% Gwybodaeth feddygol neu wybodaeth am iechyd

- **17%** Honiadau di-sail am driniaethau gwyrthiol, atchwanegiadau, deietau a chynhyrchion colli pwysau
- **17%** Cyfeiriadau cyffredinol at straeon newyddion ffug a ffugiadau dwfn sy'n cylchredeg ar-lein
- **10%** Honiadau di-sail am bolisïau gwleidyddol a safbwyntiau pleidiau ynghylch polisïau iechyd

Y **3 Phrif Fath** o Gamwybodaeth neu Ffugiadau Dwfn (Digymell) y daethpwyd ar eu traws yn ystod y 4 wythnos diwethaf – yn ôl Pwnc (Ymysg y Rhai a Welodd Newyddion am Bob Pwnc)



C5. Yn ystod y 4 wythnos diwethaf, ydych chi wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am y pynciau canlynol rydych chi'n eu hystyried yn...? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:


Sylfaen: Pawb sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw newyddion neu wybodaeth feddygol neu wybodaeth am iechyd yn ystod y 4 wythnos diwethaf (n=1944), gwleidyddiaeth y DU gan gynnwys yr etholiadau cyffredinol (n=3483), gwleidyddiaeth ryngwladol a materion cyfoes (n=2644), Arall (n=131)

# Adran 3: Sut mae pobl yn priodweddu ac yn delio â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth


# Mae bron i chwech o bob deg oedolyn yn y DU yn teimlo’n hyderus yn asesu pa mor wir yw o leiaf un agwedd ar wybodaeth ar-lein

**Mae bron i hanner oedolion y DU yn teimlo’n hyderus eu bod yn gallu barnu a yw ffynonellau gwybodaeth yn wir,** ac mae ychydig o dan ddwy ran o bump yn hyderus eu bod yn gallu asesu a yw ystadegau i gefnogi honiadau yn cael eu defnyddio’n gywir. Mae’r ymatebwyr yn llai hyderus eu bod yn gallu barnu presenoldeb deunydd a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial. Dywed traean o oedolion yn y DU nad ydynt yn hyderus yn barnu a yw delwedd, sain neu fideo wedi cael eu creu gan ddeallusrwydd artiffisial. Yn gyffredinol, dywed dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn hyderus yn barnu o leiaf un agwedd ar wybodaeth. Mae lefelau hyder yn amrywio yn ôl grŵp.

### Asesu Gwybodaeth Ar-lein: Hyder yn Barnu Agweddau Amrywiol – Cyfanswm




| A yw ffynonellau gwybodaeth yn debygol o fod yn wir ai peidio a’r rhesymau dros hynny | A yw ystadegau i gefnogi honiadau’n cael eu defnyddio’n gywir | A yw delwedd, sain neu fideo wedi cael eu creu gan ddeallusrwydd artiffisial |
|---|---|---|




**Mwy o hyder**

Cyflyrau iechyd meddwl - **61%**
ABC1 - **62%**
Dynion - **65%**
Grwpiau ethnig lleiafrifol - **70%**
16-24 oed - **71%**
25-34 oed - **73%**
LHD+ **- 75%**

**Llai o hyder**

C2DE - **16%**
Menywod - **17%**
55+ oed - **22%**

Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C19. Wrth ystyried gwybodaeth ar-lein, pa mor hyderus ydych chi wrth farnu’r canlynol?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (n=4269), Dynion (n=1934), Menywod (n=2269), Heterorywiol (n=3580), LHD+ (n=454), 16-24 oed (n=557), 25-34 oed (n=827), 55+ oed (n=1596), Cyflyrau Iechyd Meddwl (n=665), Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (n=527), Nid Saesneg yw’r Iaith Gyntaf (n=340), ABC1 (n=2570), C2DE (n=1699), Yr Eglwys yn Lloegr/yr Alban (n=817), Lefel isel o addysg (n=419), Lefel ganolig o addysg (n=1524)

# Dywed bron i hanner oedolion y DU eu bod yn penderfynu a yw rhywbeth yn gamwybodaeth ai peidio oherwydd eu bod yn gwybod y ffeithiau am y pwnc

Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr ystyried pam eu bod wedi penderfynu bod darn o wybodaeth yn ffug neu'n gamarweiniol, gan roi amrywiaeth o opsiynau iddynt ddewis ohonynt. Mae bron i hanner yn dweud bod eu penderfyniad yn seiliedig ar wybod y ffeithiau am y pwnc. Mae ychydig dros bedwar o bob deg yn dweud bod y ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei phortreadu yn ffactor allweddol, ac mae bron i bedwar o bob deg yn gwirio gyda ffynonellau eraill. Mae oddeutu un rhan o dair yn seilio eu barn ar darddiad yr wybodaeth, ac mae tri o bob deg yn penderfynu ar sail barn pobl eraill am yr wybodaeth.

**Rhesymau dros ystyried bod gwybodaeth ddiweddar yn wybodaeth ffug neu gamarweiniol – pawb sydd wedi cael profiad o gamwybodaeth yn ystod y 4 wythnos diwethaf**

**46%** Rwy'n gwybod y ffeithiau am y pwnc hwn, sy'n wahanol i'r safbwynt hwn

**43%** Roedd gwedd yr wybodaeth yn gwneud i mi feddwl nad oedd yn ddibynadwy

**37%** Fe wnes i wirio'r wybodaeth yn erbyn ffynonellau dibynadwy

**34%** Mae'r person neu'r sefydliad a bostiodd yr wybodaeth wedi rhannu gwybodaeth ffug/gamarweiniol o'r blaen

**31%** Mae pobl eraill wedi ei fflagio neu wedi rhoi gwybod ei bod yn wybodaeth ffug

Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024


C15. Gan feddwl am yr wybodaeth ffug neu gamarweiniol ddiweddaraf i chi ddod ar ei thraws, pam ydych chi'n meddwl bod yr wybodaeth hon yn ffug neu'n gamarweiniol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Sylfaen: Pawb sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn ystod y 4 wythnos diwethaf (n=1592); Dynion (n=876), LHD+ (n=212), 16-24 oed (n=211), 25-34 oed (n=341), 35-44 oed (n=341), 55+ oed (n=609), Cyflyrau Iechyd Meddwl (n=270), Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (n=203)

# Mae bron i hanner oedolion y DU yn dweud eu bod yn anwybyddu gwybodaeth ar-lein a allai fod yn anwir

Mae bron i hanner oedolion y DU yn dweud eu bod yn anwybyddu cynnwys ar-lein a allai fod yn anwir.  Mae chwarter yn chwilio am ragor o wybodaeth i'w gwirio. Mae dros un o bob pump yn edrych ar sylwadau ar yr wybodaeth i weld beth mae pobl eraill yn ei ddweud amdani, ac mae 13% yn gofyn i ffrindiau a theulu. Dywed un o bob ugain eu bod yn defnyddio adnodd neu wefan gwirio ffeithiau.

**Camau a gymerwyd wrth ddod ar draws cynnwys ar-lein a allai fod yn anwir – pob oedolyn yn y DU**




**Mwy tebygol o anwybyddu:**
Oedolion hŷn (53%)

**Llai tebygol o anwybyddu:**
LHD+ (40%)
Grwpiau ethnig lleiafrifol (28%)
Pobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf (30%)

Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C18. Os ydych chi'n dod ar draws erthygl neu ddarn o gynnwys ar-lein rydych chi'n meddwl allai fod yn anwir, beth ydych chi'n ei wneud fel arfer? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Sylfaen: Pob ymatebydd (n=4269)


# Mae tua chwarter oedolion y DU yn dweud eu bod wedi defnyddio gwefan neu adnodd gwirio ffeithiau o leiaf unwaith

Pan ofynnwyd a oeddent wedi clywed am unrhyw wefannau neu adnoddau gwirio ffeithiau neu wedi'u defnyddio, dywedodd tua chwarter oedolion y DU eu bod wedi defnyddio gwefan neu adnodd gwirio ffeithiau o leiaf unwaith. Fodd bynnag, o ran yr holl wefannau gwirio ffeithiau a grybwyllwyd, nid oedd dros hanner oedolion y DU wedi clywed am y wefan na'r adnodd.

BBC Verify yw'r adnodd sydd fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio neu y mae pobl fwyaf tebygol o fod wedi clywed amdano, ac mae un o bob pump yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio o leiaf unwaith, ac un o bob ugain yn dweud eu bod yn gwneud hynny'n rheolaidd.

### Ymwybyddiaeth wedi'i chymell a defnydd o wefannau ac adnoddau gwirio ffeithiau – holl oedolion y DU

**Yn fwy tebygol o ddefnyddio o leiaf unwaith:**
Dynion
Oedolion iau
LDH+
Grwpiau ethnig lleiafrifol
Siaradwyr Saesneg anfrodorol




Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C17. Nodwch a ydych chi wedi clywed am unrhyw un o'r gwefannau neu adnoddau gwirio ffeithiau a restrir isod neu wedi'u defnyddio

Sylfaen: Pob ymatebydd (n=4269)

# Mae naw o bob deg o’r rheini sy’n dod ar draws camwybodaeth yn dweud eu bod yn poeni am ei heffaith ar gymdeithas


Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i ba raddau yr oeddent yn poeni am ei heffaith. Mae naw o bob deg yn dweud eu bod yn poeni am effeithiau cymdeithasol gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, ac mae bron i ddwy ran o dair yn dweud eu bod yn poeni am yr effaith arnyn nhw eu hunain.

**Poeni am effaith gwybodaeth ffug neu gamarweiniol (unrhyw bwnc) – pawb sydd wedi cael profiad o gamwybodaeth yn ystod y 4 wythnos diwethaf**



**Mae 90% o gyfranogwyr yn poeni am effaith <u>gymdeithasol</u> dod ar draws camwybodaeth**

Mae pobl o gefndiroedd ABC1 (92%) yn fwy tebygol o boeni na'r cyfartaledd



**Mae 63% o’r cyfranogwyr yn poeni am effaith <u>unigol</u> dod ar draws camwybodaeth**

Mae tri chwarter (75%) y bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn poeni, felly hefyd 67% o bobl 25-34 oed

Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C8. I ba raddau ydych chi’n poeni am effaith gwybodaeth ffug neu gamarweiniol sy’n ymwneud â’r pynciau canlynol arnoch chi (1 = poeni’n fawr a 5 = ddim yn poeni o gwbl)? /C9. I ba raddau ydych chi’n poeni am effaith gwybodaeth ffug neu gamarweiniol sy’n ymwneud â’r pynciau canlynol ar gymdeithas (1 = poeni’n fawr a 5 = ddim yn poeni o gwbl)?

Sylfaen: Pawb sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn ystod y 4 wythnos diwethaf (n=1580), 25-43 oed (n=335), Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (n=202), ABC1 (n=1066)

# Safbwyntiau ynghylch pa mor wir yw datganiadau ar feysydd pwnc sy'n ymwneud â materion cyfoes

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn meddwl bod y datganiadau canlynol ar bynciau'n ymwneud â materion cyfoes yn gywir neu'n anghywir.  Mae tri o bob deg oedolyn yn y DU yn credu bod un grŵp o bobl sy'n rheoli'r byd gyda'i gilydd yn gyfrinachol, ac mae'r safbwyntiau hyn yn fwy tebygol o gael eu harddel gan y rheini mewn grwpiau C2DE, pobl iau, pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol a'r rheini nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae tri o bob deg yn credu bod tystiolaeth sylweddol o dwyll etholiadol ar raddfa fawr, ac mae menywod, y rheini o grwpiau ethnig lleiafrifol ac o gefndiroedd C2DE yn fwy tebygol o fod â'r farn hon.

**Safbwyntiau ynghylch a yw datganiadau'n gywir neu'n anghywir – holl oedolion y DU**




Ofcom: Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU 2024

C22. Dyma rai datganiadau ar bynciau materion cyfoes rydym wedi'u haddasu o amrywiaeth o ffynonellau ar-lein. Byddwn yn dangos amrywiaeth o ddatganiadau cywir ac anghywir i chi. Rydym ni eisiau gwybod a ydych chi'n credu bod pob un yn gywir neu'n anghywir

Sylfaen: Pob ymatebydd (n=4269), Dynion (n=1934), 16-24 oed (n=557), 25-34 oed (n=827), Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (n=527), Nid Saesneg yw'r Iaith Gyntaf (n=340)